**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 15 Mehefin 2021 am 5.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd A Cox
Y Cynghorydd Owen-Jones
Y Cynghorydd E Stephens
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd M Griffiths
Y Cynghorydd S Rees

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng Flaen
Mr C Bradshaw – Prif Weithredwr
Mr C Davies – Rheolwr Materion Ymgynghori a Pholisïau Corfforaethol

**1 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Hughes, P Jarman, J James ac W. Jones.

**2 Cyfleuster Ymchwil Craffu**

Dywedodd y Cadeirydd fod cyfleuster ymchwil craffu ar gael yn Uned Busnes y Cyngor i gynorthwyo Aelodau â'u cyfrifoldebau craffu a'u rolau'n Aelodau Etholedig. Dylid anfon unrhyw geisiadau i'r cyfeiriad e-bost craffu.

**3 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher y datganiad o fuddiant personol canlynol mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr Agenda, Astudiaeth o Gludiant Coridor Gogledd Orllewin Caerdydd:

"Mae fy mab yn un o gyfarwyddwyr Trafnidiaeth Cymru"

**4 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai 2021 yn rhai cywir.

**5 Dolenni Ymgynghori**

Penderfynodd yr Aelodau gydnabod yr wybodaeth oedd wedi'i darparu trwy'r

dolenni ymgynghori mewn perthynas ag ymgynghoriadau agored, ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r materion hynny y mae'r awdurdod lleol yn cynnal ymgynghoriadau ynglŷn â nhw.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd, fod Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr wedi lansio ymgynghoriad ar drefn ddiogelwch tipiau glo newydd arfaethedig yng Nghymru a fyddai'n disodli deddfau sydd wedi dyddio ac yn gwella sut mae ystod o risgiau o ran tipiau glo yn cael eu rheoli. Y bwriad oedd y byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad cyn ei ddyddiad cau ym mis Medi 2021.

**6 Astudiaeth Cludiant Coridor Gogledd-orllewin Caerdydd**

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a'r bwriad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu roi sylwadau arno ac adborth i'r Cabinet mewn perthynas ag Astudiaeth o Gludiant Coridor Gogledd-orllewin Caerdydd. Cadarnhawyd bod adroddiadau union yr un fath yn cael eu trafod gan Cyngor Dinas Caerdydd.

Awgrymodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y dylai'r Gweithgor Craffu sy'n trafod datblygu isadeiledd trafnidiaeth ar gyfer y dyfodol er mwyn ymateb i gynllun Metro De Cymru, o ganlyniad i Rybudd o Gynnig yn y Cyngor Llawn, ailafael yn ei waith a chwrdd eto ar 7 Gorffennaf 2021. Bwriad hyn yw trafod yr ymatebion a gafwyd gan bartneriaid yn ogystal â'r wybodaeth yn yr adroddiad i'r Cabinet, a derbyn diweddariad am isadeiledd trafnidiaeth ar gyfer y dyfodol.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau'r Rheng Flaen, ei adroddiad ac esboniodd, oherwydd twf sylweddol a nodwyd ar hyd y coridor sy'n cysylltu Tonysguboriau, Llantrisant a Gogledd-orllewin Caerdydd, o ran datblygiadau preswyl a gweithgaredd economaidd sydd wedi cael ei amlygu gan Gynlluniau Datblygu Lleol priodol Caerdydd. a RhCT, nodwyd coridor Gogledd-orllewin Caerdydd fel un o'r 4 coridor uchaf a dyfarnwyd cyllid iddo yn 2020/21 i symud ymlaen at gam cyntaf y broses WelTAG (Achos Amlinellol Strategol (SOC)). Canlyniad y Cam WelTAG 1 yw rhestr fer o atebion posib ar gyfer y coridor. Mae'n goridor sylweddol sydd heb opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus go iawn ar hyn o bryd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod gwaith sylweddol eisoes yn mynd rhagddo megis gweithio gyda Tradnidiaeth Cymru ar y Metro i ddarparu 12 trên yr awr i Bontypridd, 4 trên yr awr i Gwm Rhondda a Chwm Cynon, a fydd o fudd i'r cymunedau hynny ar hyd y llwybr i Gaerdydd. Gwaith ar orsafoedd newydd yn Ystâd Trefforest, Glan-bad a'r potensial ar gyfer Gogledd Pontypridd. Ymestyn rhwydweithiau rheilffyrdd, Aberdâr tuag at Hirwaun a chomisiynu astudiaeth yn edrych ar estyniad o Dreherbert i Dynewydd. Coridor y Cymoedd Canol o Borthcawl (gyda chyswllt trafnidiaeth gyhoeddus yn rhedeg ar hyd coridor yr A473 tuag at Drefforest ac yna ymlaen o Bontypridd i Abercynon, a chysylltiad rheilffordd newydd posib tuag at Treharris a Nelson, gan ddefnyddio'r llinell fwynau i Ystrad Mynach gyda chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus pellach i'r dwyrain tuag at y Coed Duon, Pont-y-pŵl a Brynbuga, o bosibl.

Mae Hwb y Porth yn parhau i gael ei ddatblygu ac ystyriaethau Parcio a Theithio o amgylch Pont-y-clun, Porth, Treorci, Trecynon a Hirwaun hefyd yn cael eu trafod. Mae'r prosiect tocynnau integredig hefyd yn cael ei ystyried.

I gloi, esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno o dan fframwaith WelTAG a nodwyd rhestr fer o opsiynau sy'n haeddu datblygiad ac asesiad pellach yng Ngham 2 WelTAG.

Trafododd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr adroddiad a nodi'r opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus tymor byr a thymor hir sy'n cynnig yr achosion busnes gorau er mwyn gwella mynediad o RhCT trwy Ogledd-orllewin Caerdydd i gyfeiriad canol y ddinas.

Nodon nhw'r ymholiadau canlynol-

Roedd yr aelodau'n awyddus i nodi sut y byddai'r opsiynau yn yr adroddiad yn cysylltu ag adolygiad CDLl RhCT o ran diogelu'r llwybrau a'r safleoedd a ddyrannwyd eisoes yn y CDLl cyfredol i gefnogi cyflwyno'r gwaith a sicrhau cyllid yn y dyfodol.

Gwnaeth yr aelodau sylwadau a gofyn am sicrwydd o ran y canlynol:

- Bod y cynigion yn yr adroddiad yn gynigion realistig a gellid eu cyflawni o fewn amserlenni 2020-2030 (Nodwyd na fyddai rhai o'r prosiectau'n cael eu gweithredu tan ddiwedd y degawd hwn)
- Byddai'r cynigion yn dod â buddion economaidd i RhCT nad oedd yn amlwg ar yr olwg gyntaf.
- Bydd dull gwell a chydgysylltiedig o deithio ac amserlenni bysiau a rheilffyrdd i ddarparu ar gyfer cymudwyr sy'n teithio yn hwyrach gyda'r nos
- Bod modd parhau i drydaneiddio Prif Linell De Cymru, na dderbyniodd arian gan Lywodraeth San Steffan

Nododd yr Aelodau fod y buddion economaidd uniongyrchol yn cynnwys cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a phrofiad teithio cyhoeddus cydgysylltiedig rhwng Tonysguboriau, Ystad Ddiwydiannol Llantrisant a'r ardaloedd cyfagos, a fydd o gymorth sylweddol i'r cymunedau hyn.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau am nifer y datblygiadau tai mawr yn Ne'r Fwrdeistref Sirol, sydd wedi creu eu traffig eu hunain ac sy'n tyfu, a gofynnodd am sicrwydd bod asesiadau effaith y Cyngor ei hun yn ddigon cadarn i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed y byddai dylanwadu a dyrannu safleoedd yn agos at gyfnewidfeydd cludo yn ffordd ymlaen, ac y byddai gwaith ochr yn ochr â Strategaeth y Cyngor i fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd yn datblygu dull i newid symudiadau teithio cyfredo yn sylweddol. Ar hyn o bryd mae 80% o'r cymudwyr yn teithio mewn car.

Gan gyfeirio at gynllunio ar ôl Covid, rhagweld, patrymau symud preswylwyr a'r effaith ar adeiladau swyddfa lle nad yw gweithwyr ond yn teithio i mewn i Gaerdydd ddeuddydd yr wythnos, roedd yr Aelodau'n teimlo nad oedd llawer o dystiolaeth yn yr adroddiad bod hyn wedi'i ystyried.

Nodwyd bod siwrneiau bws i Gaerdydd yn haws o ganlyniad i isadeiledd da, ac mae preswylwyr yn defnyddio eu tocynnau bws. Roedd yr Aelodau'n falch y

bydd isadeiledd tebyg yn ymestyn i rannau eraill o RhCT ond gofynnon nhw sut, yn y cyfamser, mae modd gwneud gwelliannau i'r gwasanaethau Bysiau Cludo Cyflym (Rapid Transit) rhwng ardaloedd fel Gilfach-goch a Chaerdydd?

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at ddarparu lonydd bysiau â blaenoriaeth ar hyd y coridorau i ddarparu amseroedd teithio cyflymach a mwy cyson a chydnabu y gallai hyn roi defnyddwyr ceir dan anfantais, ac felly y gellir eu hannog i ddefnyddio'r bws.

Trafododd y Pwyllgor fanteision cerbydau trydan yr oeddent yn eu hystyried yn fwy cynaliadwy a derbyniol, a phwysigrwydd cael isadeiledd i gefnogi'r dull megis pwyntiau gwefru yn agos at orsafoedd trên. Fe wnaethant hefyd nodi'r newyddion diweddar am ddatblygiad cerbydau hydrogen. Atgoffwyd yr aelodau bod y Gweithgor Trosolwg a Chraffu wedi cynnal adolygiad i ddatblygiad isadeiledd i gefnogi perchnogaeth cerbydau carbon isel.

Siaradodd y Pwyllgor am bwysigrwydd ymgynghori â'r preswylwyr ar y cynigion, fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai unrhyw ymgynghoriad yn eang ac yn cynnwys preswylwyr a busnesau Caerdydd yn ogystal â'r rhai yn RhCT trwy lwyfan ymgysylltu ar-lein newydd a chyfryngau cymdeithasol, yn debyg i'r ymgynghoriadau diweddar ar faterion Newid yn yr Hinsawdd a Theithio Llesol. Pwysleisiodd hefyd fod y cynigion yn rhai tymor hir, a byddai nifer o gynlluniau yn dod gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ôl yr angen.

**PENDERFYNWYD**:

1. Cydnabod canlyniad Astudiaeth Cludiant Coridor Gogledd-orllewin Caerdydd hyd yma;
2. Gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu gyflwyno sylwadau ac arsylwadau'r Pwyllgor i'r Cabinet ar 17 Mehefin 2021;
3. Derbyn adroddiadau pellach y bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn eu trafod yn y dyfodol.

## 7 Cyn-graffu - Ymgynghori ar y Strategaeth Newid Hinsawdd (2021-2025)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd ei adroddiad. gan roi cyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gyflawni gwaith cyn-graffu ar yr adroddiad ar yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Strategaeth Newid Hinsawdd Ddrafft  (2021-2025).

Dywedodd y Rheolwr Polisi ac Materion Ymgynghori Cortfforaethol fod y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd wedi'i alw yn "Dewch i Siarad am Newid yn yr Hinsawdd RhCT",  a chafodd yr ymgyrch ei chynnal drwy borth ar-lein lle roedd modd rhannu straeon, sgyrsiau, holiaduron byr a fideos. Roedd y garfan Cyfryngau Cymdeithasol wedi cysylltu'r ymgynghoriad ag ymgyrchoedd allweddol fel 'Diwrnod y Ddaear' i ennyn mwy o ddiddordeb a trafodaeth ymhlith y preswylwyr, busnesau, ysgolion a'r  Grwpiau i Bobl Hŷn a oedd wedi ymgysylltu. Y gobaith oedd y byddai ymgynghori wyneb yn wyneb yn bosibl yn yr haf.

Croesawodd yr aelodau'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd ddrafft (2021-

2025), gan ddweud bod angen mawr amdani a'i bod wedi cychwyn trafodaeth gadarnhaol ymhlith preswylwyr a busnesau RhCT. Fe wnaethon nhw nodi'r awydd i fentrau gwyrdd gael eu cynnal nifer o grwpiau cymunedol ledled y fwrdeistref sirol ond pwysleision nhw hefyd bwysigrwydd cydgysylltu'r gwaith da yn lleol er mwyn osgoi 'dull ar wasgar'.

Cododd un Aelod bryder ynghylch y cwestiynau yn yr ymgynghoriad a oedd yn rhy arweiniol yn eu barn nhw, ac yn annog yr ymatebion cadarnhaol yn unig. Teimlai'r Aelod y gellid gwneud mwy i ymgysylltu â phreswylwyr a busnesau, gan ofyn cwestiynau anoddach a mwy heriol am yr anfanteision a gosod blaenoriaethau.

Roedd un Aelod yn siomedig mai dim ond 56% o'r ymatebwyr a oedd o'r farn y byddai'r Ymrwymiadau Hinsawdd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei dargedau o ran gostyngiadau carbon.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y nifer fawr o gamau yn y Strategaeth ddrafft, fel cefnogi landlordiaid i wneud eu heiddo yn 'wyrdd', fel gweithredoedd tymor hir a fydd yn cael eu gweithredu dros y 15-20 mlynedd nesaf. Pwysleisiodd fod llawer o'r gweithredoedd, waeth pa mor fach ydynt, yn cyfrannu at y strategaeth gyffredinol ac mai un rhan hollbwysig o gyflawni targedau oedd ymgysylltu â phreswylwyr cymaint â phosibl.

Gwnaeth yr aelodau sylwadau a gofyn am sicrwydd bod y sgyrsiau parhaus a'r strategaeth ddrafft yn ystyried:

- Cefnogaeth i blannu coed a fyddai'n helpu i liniaru llifogydd;
- Grwpiau cymunedol yn prynu coetir ac yn datblygu prosiectau gerddi trefol;
- Mabwysiadu safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer contractwyr a chyflenwyr i'w hannog i gefnogi'r cyngor i ddod yn garbon niwtral;
- Cynlluniau hydro;
- Isadeiledd priodol i gefnogi a hwyluso gwefru cerbydau trydan gartref ac i ymchwilio i ffyrdd o wireddu gwefru ar y stryd, sut i wneud hyn yn ymarferol;
- Trafodaethau cynnar gyda datblygwyr i osod cyfleusterau cerbydau trydan ym mhob adeilad newydd

Wrth ymateb i'r ymholiadau a godwyd, dywedodd y Prif Weithredwr fod strategaeth yn cael ei datblygu i sicrhau aildyfiant naturiol coetir sy'n rhoi'r 'goeden iawn yn y lle iawn' yn fwy na phlannu, a gall hyn osgoi cyflwyno afiechyd. Mae prosiectau adfer mawnog hefyd ar y gweill fel ffordd o liniaru amledd storm uwch a glawiad a allai fod yn uwch trwy storio mwy o ddŵr yn yr ucheldiroedd. Gall adfer y nifer o fawnod diraddiedig hefyd gynyddu atafaelu carbon yn RhCT.

Roedd yr aelodau'n awyddus i gymeradwyo y bydd tai newydd yn garbon sero ond yn cydnabod nifer yr eiddo a chartrefi hŷn sydd ledled y sir a fyddai'n elwa o gynlluniau ôl-osod i'w hatal rhag 'gollwng egni';

Rhoddodd yr Aelod Lleol dros Ffynnon Taf ddiweddariad mewn perthynas â Phrosiect Ynni Adnewyddadwy'r Ffynnon Taf, a'r gobaith yw y bydd modd ehangu hyn y tu hwnt i gyflenwi Pafiliwn y Parc ac Ysgol Gynradd Ffynnon Taf.

Cytunodd yr Aelodau â'r prif themâu a nodwyd yn yr ymatebion fel 'rhaid i bawb chwarae rhan' ac 'ymgysylltu ac addysg', gyda'r awgrym y gall pob Cynghorydd chwarae rhan allweddol wrth ddylanwadu ar gymunedau lleol ac ysgolion trwy eu rolau fel Llywodraethwyr Ysgol.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cyflwyno sylwadau ac arsylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i Gabinet y Cyngor cyn ei gyfarfod ar 24 Mehefin 2021; a

2. Cydnabod mai dyma fan cychwyn y trafodaethau am newid hinsawdd gyda phreswylwyr a busnesau ar draws RhCT gydag ymgysylltiad cyhoeddus ychwanegol i'w ddilyn a chyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ymgysylltu ymhellach â'r materion a godwyd.

**8 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Crynhodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y pwyntiau allweddol a godwyd o'r trafodaethau cynharach ynghylch Astudiaeth o Gludiant Coridor Gogledd Orllewin Caerdydd ac o'r ymatebion ymgynghori a gafwyd o ran y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a gynhaliwyd yn ystod Ebrill a Mai 2021.

I gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r Pwyllgor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.30 pm**

**Y Cynghorydd M. Adams**
**Cadeirydd.**